# Polisi Posteri a Thaflenni Gwasanaeth Gwybodaeth  a Llyfrgell Torfaen

**Egwyddorion cyffredinol sy'n ymwneud â holl bolisïau ar gyfer derbyn hysbysiadau a phosteri, taflenni a chyhoeddiadau, ac arddangosiadau:**

Rydym yn cefnogi lledaenu gwybodaeth ffeithiol sy'n berthnasol i'r cymunedau lleol yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn rhoi blaenoriaeth i wybodaeth leol, yn enwedig y posteri, taflenni ac arddangosfeydd sy'n ymwneud â dysgu, diwylliant ac iechyd. Yn ogystal, rydym yn cefnogi hyrwyddo gwybodaeth at ddibenion cydlyniant cymunedol, rhaglenni diwylliannol a rhaglenni llywodraeth genedlaethol.

Lluniwyd y meini prawf i ddiogelu statws llyfrgelloedd yn y gymuned fel ffynhonnell gwybodaeth gyhoeddus ddiduedd y mae gan bob defnyddiwr fynediad iddi.

**Ein blaenoriaeth yw arddangos gwybodaeth yn y categorïau a ganlyn:**

- Gwybodaeth y mae'n orfodol i ni ei harddangos yn ôl y gyfraith.
- Hysbysiadau Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Torfaen
- Hysbysiadau a gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Gweithgareddau a gwybodaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau craidd y gwasanaeth llyfrgell, sef darllen, gwybodaeth, dysgu a lles.
- Gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ardal leol a'r ardal gyfagos.
- Digwyddiadau diwylliannol o fewn pellter teithio rhesymol
- Gwybodaeth am atyniadau i dwristiaid o fewn pellter teithio rhesymol.
- Gwybodaeth a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

**Meini prawf derbyn**
Caiff deunydd ei arddangos neu ei gadw mewn ffolderi Gwybodaeth/Digwyddiadau Cymunedol pan fydd lle ar gael. Nid oes gan rhai llyfrgelloedd le i hysbysfyrddau neu fyrddau arddangos a chedwir gwybodaeth mewn ffolderi Gwybodaeth / Digwyddiadau Cymunedol.

- Yn ddelfrydol dylai posteri fod o faint A4 ac ar ffurf portread.
- Ni ddylai taflenni fod yn fwy na A5
- Dylai pob poster roi sylw priodol i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Dylid mesur pa mor berthnasol yw'r poster yn ôl ein categorïau blaenoriaeth i'w arddangos. Penderfyniad y staff lleol yw'r dewis o ddeunydd a ddangosir.
- Bydd y deunydd yn cael ei arddangos ar y ddealltwriaeth glir nad yw CBS Torfaen yn cymeradwyo nac yn argymell unrhyw wasanaethau, digwyddiadau neu gynnyrch nad yw'n gysylltiedig â CBST.
- Rhaid darparu posteri a thaflenni ar ffurf papur. Ni fyddwn yn argraffu unrhyw bosteri neu daflenni electronig i'w harddangos gan fod hyn yn mynd i gostau.

**Ni fyddwn yn derbyn:**
- Posteri, taflenni ac arddangosiadau sydd wedi cael eu cynhyrchu'n wael, mewn llawysgrifen, neu sy'n cynnwys gwybodaeth aneglur, sydd wedi dyddio.
- Deunydd sy'n ceisio hyrwyddo safbwynt gwleidyddol neu grefyddol penodol neu garfan bwyso. Ni fyddwn yn derbyn posteri, taflenni neu arddangosfeydd sy'n annog deisebau neu sy'n ceisio newid cred neu werth presennol.
- Deunydd sy'n hysbysebu nwyddau masnachol a gwasanaethau
- Deunydd gan unrhyw elusen neu fudiad arall sy'n gofyn yn uniongyrchol am arian i gefnogi'r elusen / mudiad

**Ni ellir sicrhau y bydd unrhyw ddeunydd a gyflenwir yn cael ei arddangos nac am ba gyfnod o amser y caiff ei arddangos.**